

## Sêr Cymru II

Gweithio gyda chyllid Horizon 2020 i barhau i wella'r cynnydd gallu mewn ymchwil arbenigol mae'r cynllun hwn eisoes wedi ei gyflawni, ac annog a chyflymu cydweithrediadau eithriadol mewn ymchwil ac arloesedd drwy ddarparu cyfleoedd cyllid ychwanegol.

## M-SParc

Adeiladwyd M-SParc i ddarparu lle a gwasanaethau ategol ar gyfer prosiectau diwydiannol sy'n seiliedig ar wyddoniaeth. Darparu cefnogaeth ar gyfer datblygu clystyrau arbenigo clyfar gan ganolbwyntio ar fasnacheiddio ymchwil, datblygiad ac arloesedd mewn ynni carbon isel ac yn yr amgylchedd.

## Canolfan PYSGOD CREGYN

Bydd y Ganolfan yn cydweithio â busnesau i gyflwyno gwyddoniaeth i gefnogi twf a buddsoddiad trwy dechnolegau cynhyrchu a phrosesu newydd, nodi meysydd cynhyrchu newydd, amrywiaeth cynnyrch a goresgyn cyfyngiadau amgylcheddol ar dwf diwydiant, cynhyrchiant a marchnadwyedd.

## SEACAMS2

Yn cefnogi datblygu cyfleoedd economaidd mewn Carbon Isel, Ynni a'r Amgylchedd drwy arbenigo mewn defnydd masnachol o ymchwil ac arloesi mewn ynni adnewyddadwy morol (YAM), ymwrthedd i newid yn yr hinsawdd ac effeithlonrwydd adnoddau yng Nghymru.

## Prosiect Ymchwil i Nodweddion Morol

Bydd gwaith ymchwil a datblygu arloesol yn sicrhau gosod tyrbinau ynni llanw yn ddiogel fesul cam ym Mharth Arddangos Morlais.

Mae **SMART Cymru** cyd-fuddsoddi mewn ymchwil, datblygu ac arloesi ym myd busnes er mwyn cyflawni twf cynaliadwy. Yn cefnogi busnesau i ddatblygu, gweithredu a mansachu cynnyrch, prosesau a gwasanaethau newydd.

Mae **SMART Expertise** yn cynnig cymorth ariannol i brosiectau cydweithredu arloesol sy'n galw am arbenigedd eang i brofi syniad neu ddatrys problem o fewn diwydiant. Mae **SMART Innovation** yn cynnig cyngor a chymorth arloesol arbenigol a diduedd i fusnesau Cymreig sy'n dymuno ymgymryd ag Ymchwil a Datblygu.

## Canolfan ar gyfer Biotechnoleg Amgylcheddol

Sefydlu cyfleuster ar gyfer canfod a chynhyrchu ensymau a biofoleciwlau o berthnasedd diwydiannol a ddefnyddir wrth gynhyrchu bwyd, cynhyrchion fferyllol, technoleg amaethyddol, deunyddiau newydd a glanhau amgylcheddol wrth i ddatrysiadau biolegol gael eu darganfod sy'n disodli prosesau cemegol.

## Canolfan Ragoriaeth Prosesu Signalau Digidol (DSP)

Yn cynnal ymchwil arbenigol iawn i systemau cyfathrebu digidol megis rhwydweithiau ac ecosystemau 5G. Cydweithio'n agos gyda phartneriaid academaidd a diwydiannol Cymreig a rhyngwladol i ddarparu ystod eang iawn o gymwysiadau prosesu signalau sy'n hanfodol yn economaidd.

## Canolfan Arbenigedd Ffotoneg (CPE)

Uno holl allu ymchwil Cymru yn ymwneud â Ffotoneg i ddarparu datrysiadau ffonoteg traws-sector, wedi eu llywio gan ddiwydiant, gan gryfhau'r farchnad ffotoneg ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol i ddatblygu economi Cymru.

## Ganolfan Ynni Effeithlon Craff (SEEC)

Yn ganolfan ymchwil sy'n gweithio ar draws tri sector ynni carbon isel: ynni morol, ynni niwclear a strwythurau sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Mae'r tair thema wedi'u cydgysylltu gan hyb seiberseilwaith cyffredin.